



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Fframwaith Cymhwysedd Digidol – canllawiau

Medi 2016

Cwricwlwm i Gymru – cwricwlwm am oes

Fframwaith Cymhwysedd Digidol – canllawiau

Cynulleidfa

Yr holl weithlu addysg, partneriaid cenedlaethol a'r llywodraeth, gan gynnwys awdurdodau lleol a'u consortia rhanbarthol, undebau'r gweithlu, awdurdodau esgobaethol, cyrff llywodraethu ac Estyn.

Trosolwg

Mae'r ddogfen hon i gyd-fynd â'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol ac i helpu ysgolion yng Nghymru i'w roi ar waith.

Camau i'w cymryd

Dim – er gwybodaeth yn unig.

Rhagor o wybodaeth

Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:

Is-adran Diwygio'r Cwricwlwm

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

e-bost: CwricwlwmGymru@cymru.gsi.gov.uk

Copiau ychwanegol

Gallwch weld y ddogfen hon ar wefan Llywodraeth Cymru yn llyw.cymru/cwricwlwmigymru

Dogfennau cysylltiedig

Cymwys am oes (Llywodraeth Cymru, 2014); *Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru* (Yr Athro Graham Donaldson CB, 2015); *Addysgu Athrawon Yfory* (Yr Athro John Furlong, 2015); *Cwricwlwm i Gymru – cwricwlwm am oes* (Llywodraeth Cymru, 2015)

Cynnwys

1. Rhagarweiniad	2
Ynglŷn â chymhwysedd digidol	2
Datblygiad y Fframwaith Cymhwysedd Digidol	2
Dilyniant	3
Adolygiad parhaus	3
Cymorth i ymarferwyr	3
Arolygu	3
2. Strwythur	4
Llinynnau ac elfennau	4
Datganiadau sgiliau a thasgau	4
Syniadau ar gyfer tasgau dosbarth	5
Llinynnau – gwybodaeth bellach	5
3. Sut i'w ddefnyddio	7
4. Amserlen	8
5. Cymorth	9

1. Rhagarweiniad

Y Fframwaith Cymhwysedd Digidol (y Fframwaith) yw'r elfen gyntaf i ymddangos o'r cwricwlwm Cymru newydd. Mae'r canllawiau hyn yn rhoi gwybodaeth gefndirol am y Fframwaith ac yn pwysleisio rhai negeseuon allweddol.

Ynglŷn â chymhwysedd digidol

Cymhwysedd digidol yw'r enw ar set o sgiliau, gwybodaeth ac agweddau sy'n caniatáu i rywun ddefnyddio technolegau a systemau'n hyderus, yn greadigol ac yn feirniadol. Mae'n set hanfodol o wybodaeth i blant a phobl ifanc fod yn wybodus, yn alluog ac yn llwyddiannus yn y gymdeithas sydd ohoni.

Ni ddylid cymysgu rhwng cymhwysedd digidol a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh). Mae cymhwysedd digidol yn un o dri chyfrifoldeb trawsgwricwlaidd – y lleill yw llythrennedd a rhifedd. Y nod yw datblygu sgiliau digidol y gellir eu defnyddio mewn cysylltiad ag ystod eang o bynciau a senarios, a rheiny'n rhai y gellir eu trosglwyddo i'r byd gwaith. Fodd bynnag, nid gosod cymhwysedd digidol yn artiffisial ar bob maes pwnc yw'r nod; mae'r Fframwaith yn cynnwys syniadau ar gyfer tasgau dosbarth y gellid eu defnyddio i ddatblygu sgiliau mewn ffyrdd naturiol ac ystyrlon.

Datblygiad y Fframwaith Cymhwysedd Digidol

Yn *Cwricwlwm i Gymru – cwricwlwm am oes* (2015), nododd Llywodraeth Cymru ei chynllun i ddatblygu cwricwlwm newydd. Mae'r cynllun yn seiliedig ar yr argymhellion yn Adroddiad yr Athro Graham Donaldson, *Dyfodol Llwyddiannus* (2015)¹, yn dilyn ei adolygiad annibynnol o'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu yng Nghymru a chan roi ystyriaeth i Adroddiad y Grŵp Llywio TGCh (2013)² o ran materion mewn perthynas â chymhwysedd digidol. Mae'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol wedi'i ddatblygu fel rhan o'r cynllun hwn. Mae'r Fframwaith yn nodi ystod o sgiliau a fydd yn help i ddysgwyr lwyddo mewn byd sy'n fwyfwy digidol. Cafodd y Fframwaith ei ddatblygu gan ymarferwyr o Ysgolion Arloesi Digidol ar sail ymchwil, gan gynnwys ystyriaeth o fframweithiau digidol cyfredol, boed yn rhai rhanbarthol neu ryngwladol. Cafodd yr ymarferwyr gefnogaeth arbenigwyr allanol, gan gynnwys Estyn, consortia rhanbarthol a'r Athro Tom Crick o Brifysgol Metropolitan Caerdydd.

Mae'r Fframwaith wedi'i ddatblygu ar gyfer dysgwyr 3–16+ oed gyda'r nod o ddatblygu sgiliau o'r cychwyn cyntaf gyda'r sgiliau y mae angen i blant bach eu dysgu. O ran dysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, mae'r Fframwaith yn cynnwys sgiliau 'Ar Drywydd Dysgu', sef sgiliau sy'n sail i ddatblygu sgiliau uwch eraill.

1 *Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru* gan Yr Athro Graham Donaldson CB (2015)

2 *Adroddiad y Grŵp Llywio TGCh i Lywodraeth Cymru* gan S Arthur, T Crick a J Hayward (2013)

Nod hyn oll yw cael darlun cyfannol, holistig o'r dysgwr a darparu sawl llwybr posibl o ddatblygiad, a'r llwybrau hynny wedi'u torri'n gamau llai ac wedi'u teilwra ar gyfer pob dysgwr. Bydd llawer o ddysgwyr yn gwibio drwy'r camau hyn, ond yn achos dysgwyr eraill, bydd angen addysgu'r sgiliau hyn iddynt yn benodol, gan ystyried eu cryfderau a'u hanghenion fel unigolion. Bydd hyn yn sicrhau y bydd pob dysgwr yn cyflawni'r camau datblygu angenrheidiol er mwyn gallu defnyddio technoleg mewn ffyrdd creadigol.

Dilyniant

Mae cymhwysedd digidol yn gyfrifoldeb trawsgwricwlaidd ac mae strwythur y Fframwaith hwn wedi'i ddylunio i gyd-fynd â fformat y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol cyfredol. Ar hyn o bryd, mae'r ddau wedi'i strwythuro o gwmpas dilyniant o flwyddyn i flwyddyn, ac eithrio lle dilynir llwybrau 'Ar Drywydd Dysgu'. Fodd bynnag, wrth i'r cwricwlwm newydd ddatblygu ac wrth i'r cysyniad o 'bwyntiau cyfeirio ar gyfer cynnydd' gael ei egluro, caiff y ddau fformat eu hadolygu.

Adolygiad parhaus

Bydd gwaith i fireinio cynnwys y Fframwaith yn parhau ar ôl ei gyhoeddi am y tro cyntaf ym mis Medi 2016. Caiff hyn ei wneud ar sail deialog parhaus gydag ymarferwyr wrth iddynt ddefnyddio'r Fframwaith ac wrth i waith ar Feysydd Dysgu a Phrofiad y cwricwlwm newydd fynd yn ei flaen. Ni ragwelir y caiff newidiadau mawr eu gwneud yn ystod y cam hwn – yn hytrach, y gobaith yw mai 'esblygu' wnaiff y Fframwaith gan wella wrth i ddefnyddwyr nodi problemau.

Mae'r syniadau ar gyfer tasgau dosbarth, yn enwedig, yn debygol o newid dros amser wrth i dechnoleg, arbenigedd ac arferion digidol ddatblygu.

Cymorth i ymarferwyr

Mae'r Arloeswyr Digidol a chonsortia rhanbarthol yn gweithio gyda gweddill y Rhwydwaith Arloesi ac Ysgolion Partneriaeth i bennu pa gefnogaeth fydd ei hangen, lle dylid targedu'r gefnogaeth honno a pha ddeunyddiau ac adnoddau sydd eu hangen i alluogi ysgolion a lleoliadau i ddefnyddio'r Fframwaith i gefnogi dysgu ac addysgu ar draws y cwricwlwm. Proses barhaus fydd hon, a fydd yn ymateb i anghenion y proffesiwn.

Arolygu

Fel nawr, bydd Estyn yn arolygu safonau ac ansawdd y ddarpariaeth ym maes TGCh. Fodd bynnag, yn hytrach nag adrodd ar safonau y bernir eu bod yn arbennig o gryf neu'n arbennig o wan, o fis Medi 2016 ymlaen bydd arolygwyr yn adrodd bob amser ar safonau ym maes TGCh yn nangosydd ansawdd 1.1.

Pan fydd ysgolion yn bwrw ymlaen â mentrau er budd eu dysgwyr mewn ffordd greadigol, gan gynnwys defnyddio'r Fframwaith i ddatblygu eu harferion, bydd gan arolygwyr agwedd gadarnhaol tuag at y fath hyblygrwydd ac arloesedd.

2. Strwythur

Mae pedwar llinyn lefel uchel i'r Fframwaith. Mae'r llinynnau hyn wedi'u rhannu'n elfennau ac mae'r elfennau hynny, yn eu tro, yn cael eu cefnogi gan syniadau ar gyfer tasgau dosbarth.

Llinynnau ac elfennau

Mae'r Fframwaith yn nodi'r sgiliau digidol y dylai dysgwyr eu caffael rhwng 3 oed a 16+ oed, a hynny ar draws pedwar llinyn.

- › Dinasyddiaeth.
- › Rhyngweithio a chydweithio.
- › Cynhyrchu.
- › Data a meddwl cyfrifiadurol.

Mae pob llinyn wedi'i rannu'n elfennau fel y nodir isod.

Dinasyddiaeth	Rhyngweithio a chydweithio	Cynhyrchu	Data a meddwl cyfrifiadurol
<ul style="list-style-type: none"> › Hunaniaeth, delwedd ac enw da › Iechyd a lles › Hawliau digidol, trwyddedu a pherchnogaeth › Ymddygiad ar-lein a seiberfwlio 	<ul style="list-style-type: none"> › Cyfathrebu › Cydweithio › Storio a rhannu 	<ul style="list-style-type: none"> › Cynllunio, cyrchu a chwilio › Creu › Gwerthuso a gwella 	<ul style="list-style-type: none"> › Datrys problemau a modelu › Llythrennedd gwybodaeth a data

Datganiadau sgiliau a thasgau

Ar gyfer pob elfen mae yna ddatganiadau sgiliau sy'n disgrifio'r sgiliau y byddai disgwyl i ddysgwr fod wedi eu caffael ar gam penodol. I helpu i egluro ystyr a diben y datganiadau sgiliau, cânt eu cefnogi gan 'syniadau ar gyfer tasgau dosbarth' enghreifftiol y gellid eu defnyddio i arddangos cymhwysedd mewn perthynas â sgil penodol.

Syniadau ar gyfer tasgau dosbarth

Lle y bo'n briodol, caiff datganiadau sgiliau a thasgau eu cefnogi gan syniadau ar gyfer tasgau dosbarth sy'n rhoi awgrymiadau a dolenni i ganllawiau ac enghreifftiau ymarferol o'r hyn y gall ymarferwyr ei wneud i ddefnyddio'r Fframwaith yn effeithiol.

Dyma'r rhan fwyaf 'organig' o'r Fframwaith gan y bydd angen i'r syniadau ar gyfer tasgau dosbarth newid a datblygu i adlewyrchu technolegau newydd a'r profiad a'r arbenigedd cynyddol ym maes dysgu digidol.

Nid yw holl feysydd tasgau'r Fframwaith wedi'u poblogi ar hyn o bryd. Mae gwaith i ddatblygu gwybodaeth ar gyfer y maes hwn yn parhau a chaiff ail set o syniadau ar gyfer tasgau dosbarth ei hychwanegu ym mis Ionawr 2017. Bydd y gwaith datblygu'n parhau wedi hynny hefyd, er mwyn adlewyrchu adborth ac awgrymiadau ymarferwyr sy'n defnyddio'r fframwaith.

Llinynnau – gwybodaeth bellach

Dinasyddiaeth

Ffocws y llinyn hwn yw bod dysgwyr yn datblygu'r sgiliau sydd eu hangen i gyfrannu at y byd digidol o'u cwmpas mewn ffordd gadarnhaol. Bydd y sgiliau hyn yn helpu dysgwyr i bwysu a mesur eu lle a'u sefyllfa yn y byd digidol, fel eu bod yn barod i ddod ar draws yr agweddau cadarnhaol a negyddol am fod yn ddinesydd digidol.

Caiff dulliau, sgiliau a strategaethau meddwl yn feirniadol eu datblygu a bydd gweithredu'r rhain yn eu bywydau digidol yn helpu dysgwyr i fod yn ddefnyddwyr a chynhyrchwyr digidol cyfrifol ac annibynnol yn y byd digidol newidiol sydd ohoni.

Rhyngweithio a chydweithio

Yn y llinyn hwn, bydd dysgwyr yn archwilio gwahanol ddulliau cyfathrebu electronig ac yn pennu pa rai sydd fwyaf effeithiol ar gyfer gwahanol sefyllfaoedd. Bydd dysgwyr hefyd yn gallu storio data mewn ffordd briodol a gwneud defnydd llwyddiannus o dechnegau cydweithio.

Bydd dysgwyr yn archwilio dulliau cyfathrebu ffurfiol ac anffurfiol sy'n briodol ar gyfer amrywiaeth o sefyllfaoedd; er enghraifft agweddau proffesiynol e-bost a sianeli cyfathrebu eraill megis y cyfryngau cymdeithasol a negeseuo sydyn.

Mae storio a rhannu pethau'n electronig wedi dod yn rhan hanfodol o'n bywydau – bydd dysgwyr yn edrych ar sut i storio data ar wahanol systemau a hefyd yn dysgu am oblygiadau cyfreithiau data. Bydd dysgwyr yn dysgu sut i storio data, ond hefyd sut i'w rannu mewn ffordd briodol at wahanol ddibenion.

Mae cydweithio, ar ba ffurf bynnag, yn agwedd bwysig ar y cwricwlwm ac mae cydweithio electronig yn hollbwysig. Bydd dysgwyr yn archwilio ystod o ddulliau cydweithio ac wrth fynd yn eu blaenau, byddant yn datblygu'r sgiliau i gydweithio mewn nifer o wahanol sefyllfaoedd fel sy'n briodol.

Cynhyrchu

Mae'r llinyn hwn yn ymwneud â'r broses gylchol o gynllunio (gan gynnwys chwilio am wybodaeth a chyrchu gwybodaeth), creu, gwerthuso a gwella cynnwys digidol. Ni ddylai hyn gyfyngu ar greadigrwydd, ond dylai sicrhau cywirdeb a safon, er mwyn i'r hyn a grëir fod yn addas at ei ddiben. Mae rhai o'r sgiliau sydd i'w cael yn y llinyn hwn yn gymwys i gyd-destunau eraill, ond mae'n hanfodol rhoi'r sgiliau ar waith mewn cyd-destun digidol er mwyn sicrhau y datblygir cymhwysedd digidol.

Mae pob math o bethau y gellir eu disgrifio fel 'cynnwys digidol': tesun, delweddau, graffigwaith, sain, fideo ac unrhyw gyfuniad o'r rhain. Y bwriad yw bod dysgwyr yn cael profiad ac yn creu gan ddefnyddio ystod eang o gydrannau amlgyfrwng mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd ac at amrywiaeth o ddibenion. Mae'r Fframwaith hefyd yn cydnabod pwysigrwydd creu cynnwys gwreiddiol yn ogystal ag ail-ddylunio neu newid pwrpas cynnwys, a hynny boed yn unigol neu drwy gydweithio.

Bydd sgiliau'n datblygu wrth i soffistigedigrydd cynnwys digidol gynyddu. Wrth symud drwy'r Fframwaith, bydd dysgwyr yn dechrau cyfuno cydrannau amlgyfrwng mewn ffyrdd cynyddol gymhleth. Bydd angen rhoi mwy a mwy o ystyriaeth i gynulleidfa a diben y cynnwys digidol dan sylw. Bydd lefel y cymhlethdod hefyd yn cynyddu o ran y caledwedd a'r feddalwedd a ddefnyddir i greu a golygu a dylai ysgolion a lleoliadau weithio gyda'r awdurdod lleol a'r consortia rhanbarthol i asesu a fyddai adnoddau ychwanegol o werth sylweddol o ran cyflawni'r Fframwaith. Dylai hyn gynnwys, cyn gwneud buddsoddiad, adolygu'r sefyllfa o'i chymharu â gwasanaethau a ariennir yn ganolog, megis Hwb.

Data a meddwl cyfrifiadurol

Rydym yn byw mewn amgylchedd sy'n llawn data ac mae data'n rhan fawr o'n bywydau. Drwy'r llinyn hwn, bydd dysgwyr yn cael dealltwriaeth o bwysigrwydd data a llythrennedd gwybodaeth drwy archwilio agweddau ar gasglu data, cynrychioli data a dadansoddi data. Bydd dysgwyr yn edrych ar y cysylltiadau rhwng data a gwybodaeth â'r byd digidol gan ddatblygu sgiliau hanfodol ar gyfer y gweithle modern.

Mae meddwl cyfrifiadurol yn gyfuniad o sgiliau ymholi gwyddonol, datrys problemau a meddwl – nid y nod yw meddwl am gyfrifiaduron neu fel cyfrifiaduron.

Mae sawl cysyniad ac ymagwedd ynghlwm wrth feddwl cyfrifiadurol – mae rhai'n ffitio'n gyfleus yn y llinynnau Cynhyrchu a Rhyngweithio a chydweithio. Cyn i ddysgwyr allu defnyddio cyfrifiaduron i ddatrys problemau, rhaid iddynt ddeall y problemau, a'r dulliau o'u datrys. Ymhlith pethau eraill, bydd dysgwyr yn ystyried y cwestiynau lefel uchel canlynol i feithrin dealltwriaeth o bwysigrwydd meddwl cyfrifiadurol.

- Ai dyma'r ffordd fwyaf effeithlon o ddatrys y broblem?
- Ai dyma'r ffordd gyflymaf?
- Ai dyma'r ffordd fwyaf effeithlon o ran adnoddau?
- A yw'n datrys y broblem ac yn rhoi'r ateb cywir?
- A ellir defnyddio hyn i ddatrys problemau eraill?

3. Sut i'w ddefnyddio

Mae'r Fframwaith rhyngweithiol ar gael ar-lein ar wefan Dysgu Cymru sydd ar gael yn <http://dysgu.llyw.cymru/resources/browse-all/digital-competence-framework/?lang=cy>. Mae yna fideo byr sy'n esbonio sut y mae'r fersiwn ar-lein yn gweithio a sut y gellir dewis elfennau er mwyn teilwra pethau i'ch siwtio chi. Mae'r Fframwaith hefyd ar gael ar ffurf taenlen Excel – gellir lawrlwytho'r fersiwn hwn o'r fersiwn ar-lein y sonnir amdano uchod.

Mae Llywodraeth Cymru, mewn partneriaeth ag Arloeswyr Digidol, hefyd yn datblygu adnodd hunanasesu a mesur hyder ar Hwb i unigolion er mwyn i ysgolion allu asesu eu hanghenion datblygu o ran y Fframwaith. Byd hwn ar gael o fis Medi 2016 ymlaen.

Yn ystod tymor yr hydref, caiff adnodd archwilio sgiliau ei ddatblygu hefyd. Felly nid oes angen i ysgolion/lleoliadau ddatblygu eu hadnodd archwilio eu hunain.

4. Amserlen

O fis Medi 2016 ymlaen

Datblygu dealltwriaeth a chynllunio

- Y Fframwaith ar gael i ysgolion a lleoliadau eraill (3–16+ oed).
- Ysgolion/lleoliadau i ymgwyfarwyddo â'r Fframwaith, cytuno ar eu gweledigaeth strategol ar gyfer Cymhwysedd Digidol trawsgwricwlaidd ac ystyried sut i wireddu hyn yn eu harferion.
- Fel y nodwyd gan yr Athro Donaldson yn *Dyfodol Llwyddiannus*, gallai pennu ymarferydd arweiniol fod yn ffordd dda o gydlynu'r gwaith o integreiddio'r Fframwaith fel cyfrifoldeb trawsgwricwlaidd.
- Llywodraeth Cymru, gyda'r Rhwydwaith Arloesi, i ddatblygu adnodd archwilio sgiliau Cymhwysedd Digidol er mwyn i ysgolion/lleoliadau ei ddefnyddio fel sail i'w gwaith cynllunio.
- Y Rhwydwaith Arloesi i ddatblygu Cynnig Dysgu Proffesiynol lefel uchel, gan weithio gyda chonsortia rhanbarthol ac ystyried adborth gan ymarferwyr sy'n defnyddio'r Fframwaith. Bydd y Cynnig Dysgu Proffesiynol ar gael o fis Medi 2017 ymlaen.
- Estyn i barhau i arolygu safonau ac ansawdd y ddarpariaeth ym maes TGCh. Yn hytrach nag adrodd ar safonau arbennig o gryf neu wan yn unig, bydd arolygwyr, o fis Medi ymlaen, bob amser yn adrodd ar safonau ym maes TGCh yn nangosydd ansawdd 1.1. Mae canllawiau Estyn ar arolygu TGCh ar gael yn: www.estyn.gov.wales/document/supplementary-guidance-skills.
- Rhagor o 'syniadau ar gyfer tasgau dosbarth' ar gael.
- Llywodraeth Cymru, Arloeswyr Digidol a chonsortia rhanbarthol i gael adborth drwy gydol y flwyddyn a thu hwnt er mwyn mireinio'r Fframwaith.

O fis Medi 2017 ymlaen

Mireinio'r Fframwaith a'i integreiddio yn y cwricwlwm newydd

- Rhwydwaith Arloesi'n parhau i gydweithio i ddatblygu'r cwricwlwm newydd a pharhau i sicrhau bod ysgolion a rhanddeiliaid eraill yn rhan o'r broses ac yn cael gwybod am y cynnydd sy'n cael ei wneud.
- Y Fframwaith a'r Cynnig Dysgu Proffesiynol i gael eu mireinio ar sail adborth gan ymarferwyr a rhaglenni eraill ar gyfer adolygu'r cwricwlwm.

O fis Medi 2018 ymlaen

Cwricwlwm newydd yn ymddangos gyda'r disgwyliadau digidol yn rhan ohono

- Ysgolion/lleoliadau wedi gwneud cynnydd da o ran defnyddio'r Fframwaith yn eu hysgolion/lleoliadau.
- Yr uchelgais yw y bydd y cwricwlwm newydd ar gael i ysgolion a lleoliadau o fis Medi 2018 ymlaen ac y caiff ei ddefnyddio i gefnogi dysgu ac addysgu o fis Medi 2021 ymlaen.

5. Cymorth

- Mae'r pedwar prif fecanwaith cymorth ar gyfer ymarferwyr fel a ganlyn.
- Syniadau ar gyfer tasgau dosbarth – mae'r elfen hon o'r Fframwaith yn adnodd cymorth pwysig a fydd yn rhoi ystod o wybodaeth ddefnyddiol i ymarferwyr, ynghyd â dolenni a chanllawiau i gefnogi'r broses o roi'r Fframwaith ar waith.
- Cynnig Dysgu Proffesiynol – mae'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd a bydd ar gael yn 2017. Caiff ei lunio a'i siapio gan bobl yn y proffesiwn er mwyn helpu i sicrhau bod y cymorth yn ymateb i anghenion ymarferwyr.
- Consortia rhanbarthol – bydd y pedwar consortia yn cynnal digwyddiadau ac yn cynnig cyngor a chymorth i ysgolion. Ynghyd â'r cynghorwyr herio, byddant yn ceisio sicrhau y trosglwyddir negeseuon cyson am y Fframwaith.
- Bydd Estyn yn nodi unrhyw arfer da o ran paratoi ar gyfer y Fframwaith a welir mewn ysgolion ac yn ei rannu ar ei wefan.

Gallwch weld rhestr o'r Ysgolion Arloesi sydd wedi cyfrannu at y canllawiau hyn yma yn <http://gov.wales/docs/dcells/publications/160107-list-of-pioneer-schools-cy.pdf>.

Mae Llywodraeth Cymru'n ddiolchgar i'r ysgolion a'r ymarferwyr unigol am eu hamser, eu hymdrech a'u harbenigedd.